Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
TACHWEDD 2006

DYDDIAD	Nos Fercher, 15fed Tachwedd, 2006
AMSER	7.00yh
LLEOLIAD	Neuadd Llanwnda
AELODAU YN BRESENNOL	Huw Williams (Cad), Nerys Evans, Elin Evans, Jason Hunt, Gwilym L.Williams, Gwilym V.Thomas, Elwyn Jones, Tom Ellis, Neal Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams (clerc)

1. **Ymddiheuriadau**
   Emrys Jones, Meurig Williams, Hugh Jones, Cyng.Glyn Owen
2. **Croeso**

3. **Datgan Buddiant**
   TE – mater cynllunio Hen Gastell

4. **Cadarnhau cofnodion** cyfarfod diwethaf gynhaliwyd ar nos Fercher, Hydref 18fed, 2006.

5. **Materion i'w trafod:**
   a) Cynllun Uwchgwyrfai – wedi derbyn llythyr eglurhad gan y Cynulliad. Nodi mai dim cais cynllunio ar gyfer y ffens sydd gerbron ond cais i ganiatau cau tir comin. Clerc i ysgrifennu i Cymad gyda chopi i Alun Ffred Jones, Hywel Williams a'r heddlu. Awgrymu y dylem fynd at cyfryngau i nodi ein pryderon.
   b) Parcio y tu allan i Glyn Aber, Rhosgadfan – ymddengys fod y perchnogion wedi cael caniatâd i wneud safle parcio ond heb fanteisio ar y cyfle. Clerc wedi pasio'r wybodaeth i'r Adran Drafnidiaeth ond maent wedi nodi nad oes modd rhoi gorfodaeth arnynt. Angen sôn wrth yr heddlu.
   c) Cwmni Daniel wedi cytuno i drwsio'r ffordd ger Ffridd Terrace.
   d) JH– cyflwr y wal sydd yn weddill o garej yr Hen

Bost, Rhostryfan. Mae'n ymddangos fod plant yn taflu cerrig rhydd i'r llawr. Clerc wedi cysylltu â'r perchennog. Gwaith adeiladu yn mynd i ddigwydd yno'n fuan.

e) ElJ – gordyfiant gwrychoedd Cae Coch a Bryn Llys. Hefyd yn 3 Bro Wyled. Clerc i gysylltu efo Cyngor Gwynedd.
f) ElJ – cafwyd cwynion gan bobl sy'n defnyddio llwybr rhwng Tyddyn Canol a Rhandir Mwyn fod ceffylau yn peri pryder iddynt, gofyn tybed oes modd ffensio'r llwybr. Gofyn wrth Wyn Williams, Cyngor Gwynedd os ydy'n bosib iddynt wneud y gwaith.
g) GLW – gordyfiant ger mynedfa Menai View yn creu anhawster i yrrwyr sy'n dod o gyfeiriad Rhos Isaf. Clerc i roi gwybod i Gyngor Gwynedd.
h) HJ – cwynion am broblem parcio yng nghyfforddd Dinas. Clerc i gysylltu â'r heddlu.

i) TE – arwyddion ar y ffordd osgoi newydd – Cyngor Cymuned wedi gofyn am arwyddion fisoedd yn ôl bellach – clerc wedi anfon llythyr atgoffa, heb dderbyn ateb eto. Angen mynd ar eu holau eto.
j) Pecyn gwybodaeth am grant Cist Gymunedol (ariannu chwaraeon a chyfleoedd gweithgaredd corfforol) – clerc yn awgrymu ein bod yn gwneud cais i gael arian i greu ymwybyddiaeth am lwybr Lein Bryngwyn drwy greu pamffledi neu becynnau gwybodaeth.
k) Wedi derbyn ymateb gan D.W.Williams, Adran Drafnidaeth yn nodi nad oes bwriad i greu safloedd parcio ger 3 a 4 Bro Wyled, Rhostryfan, ac ymateb ganddo ynglyn a pharcio ger White Gables. Angen cysylltu efo'r heddlu gan ofyn wrthynt ddod i Ysgol Rhostryfan yn y boreau i weld y broblem drafnidaeth ac i bwyso ar Gyngor Gwynedd i ystyried yr ysgol wrth wneud eu hasesiadau cyffredinol drwy'r sir.
l) Copi o lythyr anfonwyd at lywodraethwyr Rhostryfan gan Bryn Hughes, 11 Bro Wyled yn cwyno am bobl ifanc yn ymddwyn yn anghymdeithasol yn yr ardal. Anfon copi o'r llythyr at yr heddlu a chydnabod llythyr Bryn Hughes.

m) Cytundeb Safle Wê gan Amalgam8. Clerc yn casglu gwybodaeth am bob aelod a mapiau o'r ardal ac ati.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	24,171.21
Cyfri Siec:	238.00
CYFANSWM	24,409.21
Cyflog/costau clerc – Tachwedd	389.36
Wyn Williams – cysgodfannau/torri gwair	465.00
Zurich Municipal (wedi cael pris diwygiedig am gynnwys yr offer chwarae o dan y polisi, sef £80.03 yn hytrach na'r £200 a soniwyd yn wreiddiol. Cytuno felly i fynd ymlaen i yswirio'r offer chwarae dan gyfrif Tir Glas)	80.03
CYFANSWM GWARIANT	**934.39**
YN WEDDILL	**23,474.82**

a) Llythyr gan Hacker Young, archwilwyr yn gofyn am y cyfrifon – clerc yn egluro fod John Dryhurst wedi archwilio'r cyfrifon a bod angen gwneud ffurflen newydd.
b) Macemain Amstad – pris ar gyfer y gysgodfan ym Mhenyffridd - £4,647.13 wedi'i gosod.
c) Mantolen Eisteddfod Genedlaethol Eryri 2005
d) Cais am nawdd Gan Gymdeithas y Byddar – i'w ystyried ym mis Mawrth.
e) Cais am nawdd gan Dawns i Bawb – i'w ystyried ym mis Mawrth.
f) Cydnabyddaieth am y nawdd gan Uned Bronyfoel, Ambiwlans Awyr, Marie Curie a Chymdeithas Lenyddol Rhos Isaf

9. **Materion Cynllunio**

Ceisiadau
CO6A/0693/24/LL – Creu mynedfa newydd ac adeiladu modurdy – Llwyn Dderw, Dinas – yn unol â'r sylwadau ar gyfer cais rhif CO6A/0675/24/LL mis diwethaf, eto aelodau'n teimlo fod y fynedfa'n beryg gan fod traffig trwm iawn yn yr ardal yma eisoes.

C06A/0450/24/LL – Cais am 4 tŷ fforddiadwy – rhan o gae 6690 ger Capel Gorffwysfa, Rhosgadfan – dim gwrthwynebiad i'r datblygiad o bedwar tŷ fforddiadwy, cyn belled fod rheolau ar gyfer tai fforddiadwy yn cael eu cadw. Aelodau'n poeni braidd fod y ffordd newydd fydd yn cael ei chreu o flaen y tai yn awgrymu fod bwriad i wneud mwy o dai yng nghefn y datblygiad arfaethedig. Hoffai'r aelodau bwyso nad ydynt am weld datblygiad pellach yn y dyfodol ar y safle hwn.

CO6A/0766/24/LL – estyniad – 3, Tan yr Allt, Rhostryfan – dim gwrthwynebiad.

CO6A/0750/24/AM – cais amlinellol ar gyfer 1 tŷ – Hen Gastell, Llanwnda – dim gwrthwynebiad.

Wedi'i ganiatau
CO6A/0718/24/LL – codi estyniad un llawr – 17 Tan yr Allt, Rhostryfan.

10. **Gohebiaeth:**
    a) Cynulliad – papur ymgynghori carthu mwynau morol
    b) Countryside Alliance – sôn am y broblem o gau'r swyddfeydd post – angen rhoi'r poster i fyny yn yr hysbysfyrddau a chysylltu â'r Countryside Alliance i weld os oes posteri Cymraeg ar gael.
    c) Cyfadran yr amgylchedd – rhaglen waith
    d) Cynulliad – canolfan gwybodaeth ym Mae Colwyn. Clerc i holi am y posibilrwydd o gael swyddog yn y Cynulliad i gynnal sesiwn i'r aelodau er mwyn creu ymwybyddiaeth a chysylltiadau.
    e) Llythyr gan glerc Cyngor Cymuned Bontnewydd yn sôn am greu pwyllgor ar y cyd i drafod oblygiadau'r ffordd osgoi i Bontnewydd – angen clerc a dau gynrychiolydd.
    f) Clerc wedi derbyn copi o lythyr anfonwyd gan Gyngor Conwy ynglyn a rheolau gosod cerrig beddi – rhwybeth i'w ystyried i'r dyfodol
    g) Cyfadran Adnoddau – gorchymyn cau ffordd wrth Llwyn Gwalch, Groeslon, Penceunant i Bryn Melyn a Brynrodyn i Hafod Talog
    h) Partneriaeth Economaidd Gwynedd
    i) Cyngor Iechyd Cymuned – adroddiad Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu
    j) Cyfadran yr Amgylchedd – cynllunio a thrafnidiaeth – llythyr yn ymateb i'n cais am balmant ger Talybont, Rhostryfan. Gwrthod ein cais ond yn fodlon rhoi 'speed bumps' ynghanol Rhostryfan a gosod drych sy'n wynebu cyfeiriad Rhosgadfan ar y gyffordd o'r ysgol.
    k) Cylchgronnau
11. Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf
    TE – cwyno fod aelodau'r Cynulliad yn ffraeo ymysg ei gilydd
    MW – steps sy'n arwain i'r mynydd ger Ochr Muriau

    Daeth y cyfarfod i ben am 8.45p.m.